**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

25 Hydref 2022

**Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)**

Annwyl Peredur

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Cyllid a gyhoeddwyd ar 7 Hydref 2022 mewn perthynas â Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ("y Bil").

Gweler fy ymateb isod i'r set o argymhellion yn yr adroddiad nad oeddwn wedi gallu mynd i'r afael â nhw'n llawn yn ystod Dadl Egwyddorion Cyffredinol Cyfnod 1 ar 11 Hydref 2022.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu heddiw at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith i nodi fy ymateb i'w hargymhellion.

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailasesu'r costau i fusnesau sy'n newid i blastigau amgen nad ydynt yn rhai untro o ganlyniad i'r Bil a bod yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'n contractwyr gwreiddiol i asesu dichonoldeb diweddaru'r costau gwreiddiol, y buddion a'r model effaith ar gyfer busnesau a gweithgynhyrchwyr sy'n newid i blastig amgen nad ydynt yn rhai untro. Rwy'n disgwyl y bydd unrhyw waith yn cymryd o leiaf chwe mis i'w gwblhau, a byddaf yn rhannu'r canlyniadau gyda'r holl bwyllgorau pan fyddant yn cael eu cyhoeddi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith pellach i asesu'r costau a'r anfanteision i weithgynhyrchwyr a busnesau eraill o wyro cynhyrchiant oddi wrth eitemau plastig. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor . Yn ôl yr adroddiad asesiad effaith rheoleiddiol roedd y rhan fwyaf o’r gwaith gweithgynhyrchu cynhyrchion i’w wahardd wedi'i leoli y tu allan i Gymru a'r DU. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn gweithio gyda'n contractwyr gwreiddiol i asesu dichonoldeb comisiynu gwaith ychwanegol i nodi a chynnwys gweithgynhyrchwyr a allai fod wedi'u colli yn ystod yr ymchwil gychwynnol yn 2019/20 ac nad ydynt wedi dod i’r amlwg ers hynny. Gall hyn alluogi Llywodraeth Cymru i ailasesu'r gost a'r anfanteision i weithgynhyrchwyr a busnesau eraill wrth wyro cynhyrchiant oddi wrth eitemau plastig. Rwy'n disgwyl y bydd y gwaith hwn yn cymryd o leiaf chwe mis i'w gwblhau, a byddaf yn rhannu'r canlyniadau gyda'r holl bwyllgorau pan fyddan nhw'n cael eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a yw'r £8.6 miliwn a nodwyd fel buddion gweithgynhyrchu yn ymwneud â'r DU neu Gymru, ac, os yw'r ffigwr yn ymwneud â'r DU gyfan, dylai alw ar Lywodraeth Cymru i gyfrifo'r buddion sy'n benodol i Gymru. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi’i ddiweddaru yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Gallaf gadarnhau'r £8.6 miliwn o fuddion sy'n cael eu cymhwyso i'r DU. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'n contractwyr i asesu dichonoldeb comisiynu gwaith ychwanegol er mwyn canfod a oes modd diweddaru'r model economaidd er mwyn amcangyfrif y buddion o weithgynhyrchu y gellir eu priodoli i Gymru. Rwy'n disgwyl y bydd y gwaith hwn yn cymryd o leiaf chwe mis i'w gwblhau, a byddaf yn rhannu'r canlyniadau gyda'r holl bwyllgorau pan fyddan nhw'n cael eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 4**
Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella ei lefel o ymgysylltu â gweithgynhyrchwyr a busnesau yr effeithir arnynt yng Nghymru. Yn benodol, dylai ganolbwyntio ei hymdrechion yn y lle cyntaf ar ddarparu canllawiau a chymorth i annog cydymffurfiaeth yn y sector, yn hytrach na dibynnu ar bwerau gorfodi'r Bil.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda gweithgynhyrchwyr a byddant yn adeiladu ar berthnasau gyda sectorau yr effeithiwyd arnynt. Bydd hyn yn ein cefnogi i ddatblygu ein polisi i fynd i'r afael â llygredd plastig a chanllawiau cysylltiedig i helpu i’w roi ar waith.

Ar ôl gweithredu’n llwyddiannus y rheoliadau ar gyfer codi tâl am fagiau siopa untro, rydym yn gwybod bod angen canllawiau clir i helpu busnesau ddeall yr effaith arnynt a'r hyn sydd ei angen ganddynt. Byddwn yn tynnu ar ein profiadau o hyn. Mae fy swyddogion eisoes wedi dechrau'r darn pwysig hwn o waith.

**Argymhelliad 5**
Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn i gyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol a wneir o dan y Bil hwn sy’n gwahardd rhagor o gynhyrchion plastig untro nad ydynt eisoes wedi’u cynnwys o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth fel y’i drafftiwyd.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Gallaf gadarnhau y bydd is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r Bil yn cael ei gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddrafft o'r Rheoliadau gael ei osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi. Bydd Memorandwm Esboniadol yn mynd law yn llaw â’r Rheoliadau, a fydd yn cynnwys Asesiad Effaith Reoleiddiol. Rwyf hefyd yn bwriadu cyflwyno gwelliant y llywodraeth yng Nghyfnod 2 a fydd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â busnesau a phartïon perthnasol eraill cyn cyflwyno rheoliadau newydd i ychwanegu at y cynhyrchion presennol yn y Bil, neu eu diwygio.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change